**Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 – Rhan 4 (Triniaethau Arbennig): Gwybodaeth am Gynnydd Gweithredu**

**Mawrth 2024. Caiff y ddogfen hon ei hadolygu a'i diweddaru (yn ôl y gofyn) yn rheolaidd.**

## Datganiad Sefyllfa Llywodraeth Cymru

Mae Rhan 4 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 yn creu cynllun trwyddedu gorfodol ar gyfer ymarferwyr a busnesau sy'n cyflawni 'Triniaethau Arbennig' yng Nghymru. Y pedair Triniaeth Arbennig benodol yn y Ddeddf yw aciwbigo (gan gynnwys nodwyddo sych), tyllu'r corff, electrolysis a thatŵio (gan gynnwys colur lled-barhaol). Mae rhaglen ddeddfwriaethol ar y gweill i gyflwyno rheoliadau a fydd yn sefydlu'r cynllun, a bydd angen gweddill 2024 i gyflawni hyn.

## Gweithgarwch cyfredol

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar egwyddorion polisi'r cynllun yn gynnar yn 2023. Mae'r ddogfen ymgynghori, yr asesiadau effaith cysylltiedig a'n hymateb i'r ymgynghoriad hwn i'w gweld yma: Trwyddedu gorfodol ar gyfer triniaethau arbennig yng Nghymru | LLYW.CYMRU

Mae'r ymatebion a ddaeth i law wedi llywio cynnwys rheoliadau drafft i lywodraethu'r cynllun trwyddedu. Agorodd ymgynghoriad ar y rheoliadau drafft hynny a chanllawiau statudol cysylltiedig ar 12 Chwefror 2024 a bydd yn rhedeg am 8 wythnos tan **8 Ebrill**. Hwn fydd y cam olaf cyn i'r rheoliadau symud i broses ddeddfwriaethol ffurfiol y Senedd.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gydag awdurdodau lleol ac ymarferwyr i ddatblygu systemau a deunyddiau y bydd eu hangen i gyflawni cynllun trwyddedu'r dyfodol:

- Mae darparu Cymhwyster Lefel 2 wedi'i reoleiddio ar Atal a Rheoli Haint ar gyfer Ymarferwyr Triniaethau Arbennig ar waith ac mae ar gael wyneb yn wyneb ac ar-lein. Mae pob canolfan hyfforddi yn gallu cael gafael ar ddeunyddiau hyfforddi drwy Gymdeithas Frenhinol Iechyd y Cyhoedd (RSPH). Mae'r cylchlythyr i ymarferwyr yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am leoliadau a darparwyr y cwrs hwn. Bydd gofyn i bob darpar ymgeisydd i'r cynllun (am drwydded ymarferydd a/neu dystysgrif cymeradwyo mangre/cerbyd) ymgymryd â'r cwrs hwn a'i basio cyn gwneud cais.

- Mae'r gwaith TG i ddylunio a chreu un gofrestr ar-lein i'w defnyddio gan bob awdurdod lleol yng Nghymru wedi'i gwblhau ac mae bellach yn y cyfnod profi.

- Mae pob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru yn parhau i wneud trefniadau ar gyfer cyflwyno'r rheoliadau ac wedi bod yn adolygu'r triniaethau a'r adnoddau sydd ar gael i gefnogi cyflwyno'r cynllun trwyddedu gorfodol.

- Mae pob un o’r 22 awdurdod lleol yng Nghymru wedi cytuno ar y ffioedd ar gyfer y cynllun ac maent wedi cael eu cyhoeddi ar sail Cymru gyfan, gan sicrhau y byddant yr un fath ym mhob awdurdod lleol (gweler yr adran ar ffioedd isod).

- Bydd awdurdodau lleol yn gyfrifol am orfodi’r gofynion trwyddedu ac am ddiweddaru cofrestr gyhoeddus o drwyddedau dilys a thystysgrifau cymeradwyo sydd wedi’u dyroddi.

- Bydd mwy o bwerau i orfodi’r ddeddfwriaeth hon na’r rhai sydd ar waith ar hyn o bryd, gan gynnwys cymryd camau yn erbyn y rhai sy’n gweithredu’n anghyfreithlon; y gallu i ddirymu trwydded; atal arferion anniogel ar unwaith; a phennu dirwyon i ddeiliaid trwydded a deiliaid tystysgrif gymeradwyo lle bo hynny’n briodol.

- Er mwyn sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn parhau i fod yn gyfredol wrth i driniaethau arbennig newydd esblygu yn y dyfodol, mae’r Ddeddf yn cynnwys darpariaeth i ystyried gwneud deddfwriaeth bellach i ddiwygio/ychwanegu at y rhestr o driniaethau arbennig.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â Llywodraeth Cymru ar e-bost: **TriniaethauArbennig@llyw.cymru**

**Crynodeb o brif ofynion y cynllun trwyddedu ar gyfer ymarferwyr a gweithredwyr mangreoedd/cerbydau**

Bydd y gofynion cyfreithiol presennol ar gyfer cofrestru a gorfodi ar gyfer aciwbigo, tyllu'r corff, electrolysis a thatŵio yn parhau yn eu lle nes bydd y cynllun trwyddedu gorfodol yn cael ei gyflwyno. Mae'n rhaid i gofrestriadau newydd o dan y cynllun cofrestru presennol ddigwydd o hyd er mwyn gweithredu'n gyfreithlon cyn i'r cynllun newydd ddod i rym.

**Pwy sydd angen beth?**

- Bydd y cynllun newydd yn gymwys i bawb sydd wedi gwneud cofrestriad untro gyda'u hawdurdod lleol yn flaenorol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 i ymarfer aciwbigo, nodwyddo sych, tyllu'r corff, electrolysis, colur lled-barhaol a thatŵio, ac ar gyfer y fangre a'r cerbydau lle mae'r triniaethau hyn yn cael eu cyflawni, yn ogystal ag ymgeiswyr newydd.

- Rhaid i bob ymarferydd gael ei **drwydded triniaethau arbennig** ei hun a fydd yn cadarnhau'r driniaeth/triniaethau y mae wedi'u trwyddedu'n bersonol i'w cyflawni.

- Rhaid i bob mangre neu gerbyd busnes triniaethau arbennig gael **tystysgrif cymeradwyo mangre/cerbyd** ei hun.

- Bydd angen i unrhyw ymarferydd sy'n gyfrifol am ei fangre ei hun gael **trwydded triniaethau arbennig** (ar gyfer ei hun) **a thystysgrif cymeradwyo mangre** (ar gyfer ei fangre).

**Pam mae'n rhaid i mi wneud y cwrs Atal a Rheoli Heintiau?**

Mae'n rhaid i bob ymarferydd a gweithredwr mangre busnes fod wedi pasio cwrs Atal a Rheoli Heintiau Lefel 2 wedi'i reoleiddio cyn iddo wneud cais. Bydd hyn yn sicrhau bod pob ymgeisydd yn gweithredu i safon gyson a mesuradwy o atal a rheoli heintiau. Mae rhai ymarferwyr wedi cael hyfforddiant i lefelau uwch mewn atal a rheoli heintiau, ond nid oes modd gwneud eithriadau cyffredinol ar gyfer cymwysterau presennol heb wneud y cynllun trwyddedu'n gymhleth i'w weinyddu. Ni fyddai'n bosibl nodi a rhestru'r holl gymwysterau cyfatebol cyfredol a blaenorol, a byddai unrhyw restr o'r fath yn dyddio'n gyflym.

**Beth yw cwmpas y trwyddedau/tystysgrifau hyn?**

- Gall ymarferwyr sydd â thrwydded weithio o unrhyw fangre yng Nghymru, cyn belled â'i bod wedi cael tystysgrif cymeradwyo mangre gan yr awdurdod lleol perthnasol a bod cyfeiriad ati ar drwydded triniaethau arbennig yr ymarferydd.

- Bydd unrhyw un sy'n gyfrifol am neu'n rheoli mangre/cerbyd triniaethau arbennig yn gyfrifol am gael tystysgrif cymeradwyo mangre/cerbyd cyn y gall ymarferwyr trwyddedig weithredu yno. Nid oes angen i reolwyr busnes fod yn cyflawni'r

triniaethau eu hunain nac yn cyflogi ymarferwyr yn uniongyrchol i fod angen tystysgrif.

- Pan fydd y cynllun yn mynd yn fyw, bydd yn drosedd cyflawni unrhyw un o'r 4 gweithdrefn arbennig heb drwydded triniaethau arbennig (fel ymarferydd) neu mewn mangre/cerbyd nad yw wedi cael tystysgrif cymeradwyo mangre/cerbyd.

- Bydd y drwydded triniaethau arbennig ar gyfer ymarferwyr a'r dystysgrif cymeradwyo mangre/cerbyd yn para am 3 blynedd, ac ar ôl hynny bydd yn rhaid eu hadnewyddu trwy wneud cais i'r awdurdod lleol.

- Bydd yn ofynnol arddangos y drwydded mewn safle amlwg yn y fangre/cerbyd cymeradwy lle mae'r triniaethau arbennig yn cael eu cyflawni.

- Bydd yn ofynnol arddangos y dystysgrif cymeradwyo mangre/cerbyd mewn safle amlwg yn y fangre/cerbyd cymeradwy lle mae'r triniaethau arbennig yn cael eu cyflawni.

- Bydd amodau'r drwydded yn gymwys i ymarferwyr, a bydd amodau cymeradwyo yn berthnasol i adeiladau/cerbydau. Bydd yr amodau hyn yn ymwneud â'r driniaeth/triniaethau perthnasol a byddant yn cynnwys rhoi gweithdrefnau atal a rheoli heintiau trylwyr ar waith; cyflwr y fangre/cerbydau lle mae ymarferwyr yn gweithio; yr offer a'r arferion a ddefnyddir; y cyngor a roddir i gleientiaid cyn ac ar ôl triniaethau, a chadw cofnodion.

- Bydd yn rhaid i brentisiaid a hyfforddeion sy'n cael eu hyfforddi mewn gweithle i gyflawni unrhyw un o'r triniaethau arbennig hefyd gael trwydded triniaethau arbennig os ydynt yn cyflawni'r triniaethau ar bobl eraill fel rhan o fusnes y gweithle hwnnw. Byddant yn destun amodau trwydded penodol ynghylch goruchwyliaeth i ystyried eu statws fel hyfforddeion. Bydd ffordd o gael gwared ar yr amodau penodol hyn o'u trwydded pan fyddant wedi'u hyfforddi'n llawn ac yn barod i weithio heb oruchwyliaeth.

- Bydd tystysgrif cymeradwyo mangre 3 blynedd yn benodol i'r fangre a enwir sydd wedi'i chymeradwyo, a bydd tystysgrif cymeradwyo cerbyd 3 blynedd yn benodol i'r cerbyd sydd wedi'i gymeradwyo. Ni ellir trosglwyddo'r rhain i fangre neu gerbyd arall os yw'r deiliad yn symud i fangre arall neu'n newid cerbyd. Fodd bynnag, mae'n bosibl mynd â cherbydau i unrhyw le yng Nghymru.

- Dim ond yng Nghymru y bydd trwyddedau a thystysgrifau cymeradwyo yn berthnasol ac ni fyddant yn ddilys mewn rhannau eraill o'r DU. Ni fydd pobl sydd â thrwyddedau a/neu dystysgrifau cymeradwyo yn cael eu heithrio rhag gorfod cydymffurfio ag unrhyw gynlluniau eraill neu wneud taliadau eraill ar gyfer cynlluniau a allai fod ar waith y tu allan i Gymru.

**Beth am ymarferwyr sy'n ymweld o'r tu allan i Gymru?**

- Bydd yn rhaid i unrhyw ymarferydd sy'n ymweld â Chymru i gyflawni triniaethau arbennig, neu sy'n dod â cherbyd i weithredu fel ystafell driniaeth symudol i

Gymru i gyflawni triniaethau arbennig, gydymffurfio â gofynion y cynllun trwyddedu hefyd. Bydd angen iddynt gael trwydded triniaethau arbennig (ar gyfer eu hunain) a thystysgrif cymeradwyo cerbyd (ar gyfer y cerbyd) fel y bo'n briodol. Bydd dewis rhwng **tystysgrif cymeradwyo trwydded/cerbyd dros dro** neu un 3 blynedd yn benderfyniad busnes i'r person hwnnw.

- Bydd **trwyddedau triniaethau arbennig dros dro** ar gael i ymarferwyr sy'n ymweld â Chymru i gyflawni triniaethau am lai na 7 diwrnod fel gweithiwr gwadd mewn busnes sy'n bodoli eisoes, neu mewn digwyddiad dros dro sy'n cael ei gynnal yng Nghymru; bydd **tystysgrifau cymeradwyo cerbyd dros dro** ar gael i alluogi cerbydau pwrpasol o'r tu allan i Gymru i gael eu defnyddio ar gyfer triniaethau arbennig mewn digwyddiadau dros dro sy'n para llai na 7 diwrnod yng Nghymru.

- Ni fydd yn rhaid i ymarferwyr yng Nghymru sy'n meddu ar eu trwydded triniaethau arbennig 3 blynedd eu hunain gael trwyddedau dros dro i wneud gwaith gwadd neu berfformio triniaethau mewn digwyddiadau yng Nghymru, ond dim ond mewn mangreoedd cymeradwy a enwir ar eu trwydded y mae hawl ganddynt weithio.

**Beth am gynadleddau a digwyddiadau eraill?**

Bydd **tystysgrifau cymeradwyo mangre dros dro** ar gael ar gyfer mangreoedd a fydd yn cael eu defnyddio i gynnal digwyddiadau dros dro am amser cyfyngedig lle bydd triniaethau arbennig yn cael eu cyflawni. Bydd y tystysgrifau dros dro hyn ar gyfer digwyddiadau penodol am amser cyfyngedig ond ni fyddant yn para mwy na 7 diwrnod. Y mangreoedd sydd fwyaf tebygol o fod angen tystysgrifau cymeradwyo dros dro at y diben hwn fydd canolfannau cynadledda, gwestai a mangreoedd tebyg eraill na ddefnyddir fel arfer ar gyfer cyflawni triniaethau arbennig.

Bydd gofyn i drefnwyr digwyddiadau o'r fath sicrhau bod unrhyw ymarferwyr sy'n cyflawni triniaethau yn y digwyddiad yn meddu ar drwyddedau triniaethau arbennig, naill ai eu trwydded 3 blynedd eu hunain neu (yn achos ymarferwyr sy'n ymweld) drwydded triniaethau arbennig dros dro i gwmpasu cyfnod amser y digwyddiad.

Pan fydd digwyddiadau'n cael eu cynnal mewn mangre yng Nghymru sydd eisoes â'i thystysgrif cymeradwyo mangre ei hun, **ni fydd** yn rhaid i'r trefnydd gael tystysgrif cymeradwyo mangre dros dro, er y bydd yn rhaid iddo sicrhau bod unrhyw ymarferwyr sy'n ymweld sy'n bwriadu cyflawni triniaethau yn meddu ar drwyddedau triniaethau arbennig.

**Ffioedd**

Mae'r ffioedd wedi cael eu cytuno gan bob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru, felly byddant yr un fath ym mhob awdurdod lleol:

**Pob cais cyntaf**

- **Ar gyfer trwydded triniaeth arbennig 3 blynedd (ar gyfer ymarferwyr unigol)**

  - Ffi ymgeisio o £159 yn daladwy adeg cyflwyno'r cais.
  - Ffi cydymffurfio o £44, yn daladwy ar ôl i drwydded gael ei rhoi.

- **Ar gyfer tystysgrif cymeradwyo mangre/cerbyd 3 blynedd**

  - Ffi ymgeisio o £244 yn daladwy adeg cyflwyno'r cais.
  - Ffi cydymffurfio o £141, yn daladwy ar ôl i dystysgrif gymeradwyo gael ei rhoi.

**Adnewyddu (3 blynedd ar ôl dyddiad y drwydded/tystysgrif gymeradwyo gyntaf)**

- **Ar gyfer adnewyddu trwydded triniaeth arbennig am y tair blynedd nesaf:**

  - Ffi ymgeisio o £147 yn daladwy adeg cyflwyno'r cais adnewyddu.
  - Ffi cydymffurfio o £41, yn daladwy ar ôl i drwydded newydd gael ei rhoi.

- **Ar gyfer adnewyddu tystysgrif cymeradwyo mangre/cerbyd am y tair blynedd nesaf:**

  - Ffi ymgeisio o £204 yn daladwy adeg cyflwyno'r cais adnewyddu.
  - Ffi cydymffurfio o £141, yn daladwy ar ôl i dystysgrif gymeradwyo newydd gael ei rhoi.

**Beth mae'r ffioedd hyn yn ei gynnwys?**

**Y ffi ymgeisio:** mae'r ffi hon yn cynnwys cost prosesu'r cais hyd at y pwynt lle mae'r awdurdod lleol yn penderfynu a ddylid rhoi neu wrthod y drwydded neu dystysgrif cymeradwyo mangre/cerbyd, ymweld â'r ymgeisydd yn ei fangre a chyhoeddi'r gwaith papur perthnasol.

**Y ffi gydymffurfio:** mae'r ffi hon yn cynnwys cost rhedeg y cynllun o ddydd i ddydd, gan gynnwys cymorth a chyngor i ddeiliaid trwyddedau/tystysgrifau cymeradwyo, gorfodi, a monitro cydymffurfiaeth yn ystod cyfnod 3 blynedd y drwydded/tystysgrif cymeradwyo mangre/cerbyd.

Mae'r cynllun trwyddedu wedi'i gynllunio fel cynllun adennill costau. Mae hyn yn golygu y gall awdurdodau lleol godi ffi briodol i dalu eu costau, ond nid oes hawl ganddynt i wneud elw o weithredu'r cynllun. Bwriad y ffioedd ar gyfer y cynllun felly yw talu costau'r awdurdod lleol wrth iddo brosesu ceisiadau a rhedeg y cynllun yn ei gyfanrwydd. Nid yw'n ffordd i awdurdodau lleol wneud arian, ac ni fydd Llywodraeth Cymru yn cael unrhyw arian o'r cynllun hwn.

**Pa mor aml y mae'r ffioedd hyn yn daladwy?**

Mae'r ffioedd hyn yn daladwy unwaith ym mhob cyfnod trwydded/tystysgrif gymeradwyo tair blynedd, nid ydynt yn ffioedd blynyddol.

**Pam mae dwy ffi wahanol – a pham nad yw'r ymarferydd a'r fangre i gyd yn rhan o'r un drwydded?**

Nid oes hawl gyfreithiol i godi'r ffioedd ymgeisio a'r ffioedd cydymffurfio gyda'i gilydd ymlaen llaw, rhaid eu codi ar wahân. Dim ond y rhai y rhoddir trwydded neu gymeradwyaeth iddynt sy'n gorfod talu elfennau cydymffurfio'r ffioedd a byddant yn cael eu defnyddio ar gyfer gweithgarwch cymorth a gorfodi parhaus.

O ran strwythur y Ddeddf, mae'n rhaid i'r ymarferydd a'r fangre/cerbyd gael eu trwyddedu/cymeradwyo ar wahân gan eu bod yn gwneud pethau gwahanol, er bod rhywfaint o dir cyffredin rhwng y ddau. Mae'r drwydded triniaethau arbennig yn trwyddedu'r ymarferydd unigol a sut y maent yn cymhwyso arferion atal a rheoli heintiau da i'r hyn y mae'n ei wneud, ac yna gall weithio o unrhyw fangre gymeradwy yng Nghymru. Ar y llaw arall, mae'r dystysgrif mangre/cymeradwyo yn cymeradwyo trefn y gweithle a sut y caiff ei drefnu i hwyluso arferion atal a rheoli heintiau da.

Byddai grwpio'r ymarferydd a'r fangre/cerbyd ar yr un drwydded yn cyfyngu'r ymarferydd i'r fangre honno/cerbyd hwnnw yn unig ac yn tybio bod yr holl ymarferwyr hefyd yng ngofal eu heiddo eu hunain – mewn gwirionedd nid yw llawer o ymarferwyr yn gyfrifol am fangre ac maent eisiau rhyddid i symud rhwng nifer o fangreoedd gwahanol.

**Beth os na fyddaf yn talu?**

Os na thelir y ffi ymgeisio, ni fydd y cais yn cael ei brosesu. Os rhoddir trwyddedau a thystysgrifau cymeradwyo, ni ellir eu dal yn ôl nes bod y ffi cydymffurfio yn cael ei thalu gan fod y gost honno'n gynwysedig yn y ffi ymgeisio. Gallai methu â thalu'r ffi gydymffurfio olygu bod yr awdurdod lleol yn cymryd camau i adennill y swm sy'n ddyledus, a gall olygu na fydd unrhyw geisiadau yn y dyfodol yn cael eu prosesu nes bod unrhyw ffioedd sy'n weddill yn cael eu talu.

**Nid oedd angen i mi dalu'r ffioedd hyn o'r blaen. Pam mae angen gwneud hynny nawr?**

Nid yw'r cofrestru a'r ffi untro sy'n daladwy o dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 bellach yn addas i'r diben o ystyried sut mae'r sector triniaethau arbennig wedi ehangu ers i'r ddeddf ddod i rym. Mae'r Ddeddf benodol honno'n darparu pwerau cyfyngedig i awdurdodau lleol weithredu yn erbyn ymarferwyr nad ydynt yn cydymffurfio, ac ar wahân i'r cofrestriad cychwynnol, nid oes llawer o reidrwydd ar ymarferydd neu fusnes i gynnal safonau rheoli heintiau. O'r herwydd, mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 yn nodi fframwaith rheoleiddiol cadarn o drwyddedu, sy'n cynnwys gweithdrefn ymgeisio fwy trylwyr ac

adnewyddu trwyddedau yn rheolaidd. Y bwriad cyffredinol yw i ymarferwyr a gweithredwyr busnes arddangos a chynnal safonau uchel o ran atal a rheoli heintiau ac i awdurdodau lleol gael gwell dulliau cyfreithiol i fynd i'r afael ag ymarferwyr a busnesau sydd ag arferion gwael neu sy'n gweithredu'n anghyfreithlon.

**Pryd mae hyn yn dechrau?**

Mae Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn ystyried yr amserlen mewn perthynas â'r broses gyfreithiol sydd i'w dilyn a phryd y bydd yn cael ei gwblhau er mwyn caniatáu i'r cynllun fynd yn fyw. Y tebygolrwydd yw y bydd hynny'n digwydd yn ystod sesiynau hydref 2024 y Senedd. Byddwn yn gallu bod yn fwy pendant unwaith y bydd yr ymgynghoriad ar y rheoliadau drafft wedi dod i ben ym mis Ebrill.

**Hoffwn gael mwy o wybodaeth am sut y bydd y cynllun hwn yn gweithio**

Bydd canllawiau ar weithrediad y cynllun, beth sydd angen i chi ei wneud i gyflwyno cais, a'r hyn sy'n digwydd ar ôl hynny, yn cael eu cyhoeddi'n agosach at ddyddiad dechrau'r cynllun.